**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer yr ymchwiliad: A oes gan blant a phobl ifanc anabl fynediad cyfartal at addysg a gofal plant?**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee for the inquiry: Do disabled children and young people have equal access to education and childcare?**

**AEC 74**

**Ymateb gan: Unigolyn**
**Response from: Individual**

---

Dyma grynodeb o drafodaeth rhwng Clerc y Pwyllgor a rhiant plentyn sydd ag anableddau dysgu. Mae ganddo hefyd arbenigedd fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol perthynol.

Dyma'r materion o bwys a drafodwyd:

- **Hyfforddiant cychwynnol athrawon.** Nid yw'n cwmpasu datblygiad plant na cherrig milltir datblygiadol. Gall hyn ei gwneud yn fwy anodd i athrawon pan fyddant yn addysgu plant sydd ag anghenion ychwanegol, gan na allant osod yr anghenion hyn o fewn cyd-destun ehangach cerrig milltir datblygu. Er bod rhywfaint o waith yn cael ei wneud gan ddarparwyr hyfforddiant athrawon i ehangu'r cwricwlwm i gynnwys ADY, mae'n ddarn mawr o waith, ac nid oes yr adnoddau o ran gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd i gefnogi'r gwaith hwn o ehangu hyfforddiant athrawon.
- **Heriau i'r dysgwyr hynny sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sydd mewn darpariaeth prif ffrwd.** I blant ag oedi datblygiadol, gall fod mwy o heriau wrth iddynt symud ymlaen drwy'r ysgol gynradd. Gall hyn fod yn broblem arbennig wrth iddynt fynd i flwyddyn 3, lle mae ystafelloedd dosbarth yn llai o ran maint ac mae dysgu yn llai seiliedig ar chwarae. Ar gyfer ei blentyn ei hun, mae'n ystyried yr opsiynau ar gyfer addysg fwy arbenigol, ond nid yw hynny'n ddelfrydol, oherwydd bod ei blentyn yn ddysgwr cymdeithasol a byddai mewn lleoliad gyda phlant sydd ag ymddygiadau cymhleth, y gallent eu codi wedyn. Mae'r plentyn hefyd yn gefell i frawd neu chwaer niwronodweddiadol, ac felly byddai hyn yn golygu gwahanu gefeilliaid i wahanol ysgolion.
- **Mae darpariaeth prif ffrwd hefyd yn rhoi cyfleoedd ehangach i blant o ran cymdeithasoli a dysgu cymdeithasol, a mynediad at glybiau cyn ac ar ôl ysgol.**
- **Mae agweddau hen ffasiwn o hyd tuag at rieni/gofalwyr plant sydd ag anghenion ychwanegol yn gweithio. Mae'r rhan fwyaf o rieni sy'n ofalwyr bellach yn gweithio ac nid ydynt yn aros gartref i ofalu am eu plant.** Rhaid i lawer o rieni/gofalwyr wneud y swyddi sy'n talu isaf gan y byddant yn

darparu hyblygrwydd o amgylch oriau ysgol. Yn aml nid yw clybiau brecwast ac ar ôl ysgol ar gael mewn lleoliadau arbenigol. Mae cael mynediad at y rhain o fudd i blant a rhieni/gofalwyr. Soniwyd am yr effaith ar y plentyn sydd, o ganlyniad i fod mewn clwb brecwast, wedi dysgu ymddygiadau cadarnhaol gan ei gyfoedion.

Mae gan rieni hefyd yr hawl i weithio, a thynnwyd sylw at y modd yr oedd y gwaith yn cael effaith gymdeithasol gadarnhaol ehangach. Roedd hefyd yn cyfeirio at weithiwr cymdeithasol yn dweud, pan oedd y plentyn yn iau, na ddylai fod yn gweithio.

- **Nid yw tripiau ysgol bob amser yn hygyrch i blant sydd ag anghenion ychwanegol.** Ymhlith y rhwystrau roedd diffyg mannau newid hygyrch, a hygyrchedd ehangach i leoliadau, ac ar gyfer aros dros nos.
- **Mae angen canolfannau asesu gyda gwasanaethau therapiwtig ar gael yn fewnol.** Ar gyfer llawer o gyflyrau, bydd maint yr angen yn eithaf eang, ac eto mae rhieni'n gorfod gwneud penderfyniadau pan fydd eu plentyn yn ifanc, ac efallai nad yw lefel yr angen yn glir. Fodd bynnag, byddai cael canolfannau asesu gyda gwasanaethau therapiwtig wedi'u hymgorffori yn help. Byddai hefyd yn helpu plant a phobl ifanc a allai fod angen cymorth ychwanegol ond nad oes ganddynt gyflwr â diagnosis, a allai gael cymorth a fydd yn eu helpu i ffynnu mewn darpariaeth prif ffrwd.
- **Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol.**
- **Mae'r dewis yn gyfyngedig iawn ar gyfer plant sydd ag anghenion ychwanegol, ac nid oes cydraddoldeb o ran dewis.** Daw'r dewis hwn hyd yn oed yn fwy cyfyngedig mewn ardaloedd gwledig. Mae angen ystyried dewisiadau iaith, o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg, ond hefyd mewn rhai mannau i sicrhau bod plant Saesneg eu hiaith sydd ag anghenion ychwanegol yn cael y dewis i fynychu ysgolion cyfrwng Saesneg.
- **Mae Cynorthwywyr Addysgu yn chwarae rhan hollbwysig.** Fodd bynnag, gall fod problemau os bydd cynorthwywyr addysgu sydd â sgiliau neu brofiad penodol i ffwrdd yn yr hirdymor. Mae angen uwchsgilio cynorthwywyr addysgu gan eu bod yn gweithio mor agos gyda phlant sydd ag anghenion ychwanegol.
- **Mae rhai ysgolion yn gwneud gwaith rhagorol.** Cyfeiriwyd at yr enghraifft o ysgol y plentyn yn ymgorffori'r defnydd o Makaton ym mhob dosbarth a phob agwedd ar fywyd yr ysgol.
- **Gall y diwygiadau ADY helpu i gefnogi gweithwyr proffesiynol i dyfu cyfleoedd.** Fodd bynnag, mae heriau wrth i fwy o blant a phobl ifanc aros mewn lleoliadau prif ffrwd.

- **Mae cyllid ar gyfer cymorth ADY gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd yn bennaf i gyllidebau addysg.** Rôl y swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig yw'r unig gyllid sy'n mynd yn uniongyrchol i gyllidebau iechyd. Mae blaenoriaethau ar gyfer cyllid gofal iechyd yn canolbwyntio ar adrannau damweiniau ac achosion brys. O ran cyllidebau pediatrig, mae'r cyllid yn canolbwyntio ar wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Nid oes ffocws ar bediatreg cymunedol, ac eto maent yn chwarae rhan bwysig, yn enwedig wrth gefnogi teuluoedd cyn i ddiagnosis gael ei wneud.
- **Mae angen cydgysylltu'n well ar draws meysydd iechyd ac addysg.** Byddai cydgysylltu'n well rhwng gweithwyr proffesiynol megis Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion, Therapyddion Lleferydd ac Iaith a Seicolegwyr o fewn yr ysgol yn gwella mynediad at addysg.
- **Dylid canolbwyntio mwy ar effeithiau trawma.** Mae rhai plant a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol yn byw gydag effeithiau trawma. Mae angen mynd i'r afael â hyn fel trawma yn hytrach nag angen dysgu ychwanegol.
- **Yn aml gall fod yn bethau eithaf bach a fydd yn gwella mynediad.** Fel rhiant ag arbenigedd proffesiynol, mae wedi gallu cynghori'r ysgol yn unol â hynny, fodd bynnag, nid yw hyn yn wir am bob rhiant.
- **Cafodd y cyfyngiadau symud effaith enfawr ar bob plentyn ond yn enwedig y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.** Roedd yn anodd egluro i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol am y cyfyngiadau symud, a pham y newidiodd pethau mor sylweddol. I rai plant fe wnaethant gymryd cam yn ôl, er enghraifft o ran hyfforddiant poti a chyfathrebu. Dim ond newydd ddechrau gwella ar ôl effaith y cyfyngiadau symud y mae'r teulu.

  Mae rhywfaint o'r angen cynyddol am gymorth ers y pandemig yn deillio o'r ffaith nad oedd gan blant a phobl ifanc fynediad at wasanaethau a phrofiadau arferol yn ystod y cyfyngiadau symud. Gellir datblygu rhywfaint o hyn gyda'r cymorth cywir.
- **Mae bwlch rhwng darpariaeth prif ffrwd a darpariaeth arbenigol.** I rai plant, mae angen darpariaeth well arnynt mewn lleoliad prif ffrwd. Byddai darpariaeth o'r fath hefyd yn hwyluso'r cyfnod pontio rhwng darpariaeth prif ffrwd a darpariaeth arbenigol. Byddai hefyd yn helpu plant i aros mewn darpariaeth prif ffrwd sy'n helpu ar gyfer dysgu cymdeithasol.
- **Mae angen darpariaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth.** Gall angen amrywio'n sylweddol rhwng plant a phobl ifanc sydd â gwahanol fathau o anghenion a chyflyrau, ac mae angen darpariaeth arbenigol ar gyfer Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth.

- **Mae sicrhau cyllid ar gyfer darparu offer yn y blynyddoedd cynnar yn heriol.** Nid yw rhywfaint o'r cymorth ariannol sydd ar gael i deuluoedd a lleoliadau yn hysbys iawn.
- **Mae angen i ddarparwyr blynyddoedd cynnar fod yn fwy ymwybodol o anghenion dysgu ychwanegol.** Nid oes digon o wybodaeth o fewn y sector.
- **Mae cyllid yn fater cyffredinol.** Fodd bynnag, mae cyfleoedd i wella gwasanaethau a chydgysylltu.